



Mewn system gwresogi dŵr solar (GDS), mae golau'r haul yn cynhesu'r dŵr mewn paneli solar. Dros flwyddyn yn y DU, gall GDS ddarparu tua 40-60% o ddŵr poeth mewn cartref, sy'n lleihau'r defnydd o ffynonellau dŵr poeth eraill fel nwy. Fel arfer, mae paneli solar yn rhan o'r to neu'n cael eu gosod arno, ond gallant fod yn unrhyw le sy'n wynebu'r haul.

Newid yn yr hinsawdd CO ₂ e y kW awr	20 gram (ar gyfer gwres)	Mae'r unig allyriadau CO ₂ yn codi wrth wneud a gosod yr offer. Mae'r gwres o'r haul yn ddirglon.
Effaith ar fydd natur	Bach iawn	Dim effaith ar systemau naturiol ac eithrio'r ychydig ddeunyddiau sy'n cael eu defnyddio.
Risgiau	Bach iawn	Dim ond mân risgiau'n lleol fel gosod y paneli ar do.
Effaith weledol	Ychydig iawn	Efallai na fydd rhai pobl a chynllunwyr yn hoffi golwg GDS ar adeiladau hŷn. Gellir ymgorffori'r paneli yn y to.
Cost ar hyn o bryd	Cymedrol	Mae costau offer a gosod yn eitha uchel o hyd o'u cymharu â'r arbedion ariannol. Gall grantiau fod ar gael yn y DU.
Cost ymhen 20 mlynedd	Isel	Bydd systemau GDS fwy na thebyg yn cael eu gosod mewn cartrefi newydd yn y dyfodol, felly bydd costau'n gostwng.
Adnoddau'r DU	Cymedrol	Fydd ynni solar ddim yn darford ond mae dyddiau cymylog yn cyfyngu'r buddion; mae mwy o ynni solar yn yr haf na'r gaeaf. Llai o ynni solar yn y DU o'i chymharu â gwledydd nes i'r cyhydedd.
Dibynadwyedd/hybygrwydd	Cymedrol	Mae paneli GDS yn gweithio'n ddibynadwy ond yn dibynnu ar olau'r haul, y tymhorau a'r tywydd. Mae GDS yn gweithio'n dda i leihau defnydd o ffynhonnell dŵr poeth arall. Nid yw system GDS yn unig yn hyblyg.